

# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

12 Gorffennaf 2023

Yn bresennol: Cynghorydd S Alderman, Dr R Heath Davies, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd B Price, a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

[Ymunodd y Cynghorydd R Owens â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 16/23, yr Adroddiad Archwilio Mewnol 2022/23; Cyrhaeddodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall cyn ystyried eitem 2 – Ethol Dirprwy Gadeirydd.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.20pm; 11.30am -13.27pm)

## 1. Ethol Cadeirydd

Agorodd y Prif Weithredwr y cyfarfod a dywedodd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer swydd y Cadeirydd, sef Dr R Heath Davies.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B Price, ac eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, a **PHENDERFYNWYD** ethol Dr R Heath-Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Cymerodd Dr R Heath Davies y Gadair.

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd, sef y Cynghorydd S Alderman.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B Price, ac eiliwyd gan y Cynghorydd M James, a **PHENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd S Alderman yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

## 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D Clements.

## 4. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

## 5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.



Ar gynnig y Cyngorydd S Alderman, a eiliwyd gan y Cyngorydd M James, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023.

## 6. Log Gweithredu a Materion yn Codi

### a) Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Seibergadernid (Cofnod 13 - 9 Tachwedd 2022)

Cytunwyd i ddileu'r cam hwn o'r log gan ei fod hefyd ar Log Gweithredu yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

### **Nodwyd.**

## 7. Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2023

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Jason Blewitt ac i Matt Brushett o Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad oedd yn cynnwys y rhaglen waith am y flwyddyn nesaf a'r costau cysylltiedig. Dywedodd bod adroddiad amlinellol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor blaenorol.

Eglurodd Jason mai'r dyddiad cau ar gyfer archwiliad ariannol eleni oedd 30 Tachwedd 2023. Roedd hyn oherwydd yr oedi cyn cwblhau archwiliadau'r Cyngorau yn 2021/22 o ganlyniad i'r angen am roi cyfrif am asedau seilwaith, a arweiniodd at oedi'r gwaith ar archwiliadau 2022-23. Ychwanegodd Jason bod Safon Archwilio Genedlaethol ddiwygiedig (ISA 315) wedi'i rhoi ar waith oedd yn creu gwaith ychwanegol ac yn gofyn am set lawnach o sgiliau gan y tîm, oedd yn achosi oedi pellach ac yn effeithio ar y ffi.

Gofynnwyd am i'r eglurhad o'r oedi yn yr amserlen gael ei nodi yn yr adroddiad, a chadarnhaodd Archwilio Cymru y byddent yn cyhoeddi adroddiad ISA 260 ar ôl cwblhau'r archwiliad, fyddai'n cynnwys naratif i egluro pam fod y dyddiad cau wedi symud. Lleisiodd y Prif Weithredwr ei bryderon ynghylch yr oedi, a gofynnodd am i ddyddiad pendant gael ei bennu. Ymddiheurodd Jason am yr oedi yn yr amseroedd y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Ychwanegodd bod y dyddiad newydd, sef wythnos gyntaf mis Medi yn ddyddiad y gellir dibynnu arno.

Aeth Jason rhagddo i egluro'r ffi, a chadarnhaodd y bu cynnydd o 4.8% o ran chwyddiant ym mhob ffi, ac oherwydd y set ychwanegol o sgiliau a'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y gofynion ISA 315 newydd, roedd cynnydd ychwanegol o 10.2% i'r ffioedd sy'n ymwneud â'r elfennau archwilio ariannol. Yn seiliedig ar y codiadau hyn, bu cynnydd o 4.8% yn y ffioedd archwilio perfformiad a chynnydd o 15% yn yr archwiliad ariannol. Cadarnhaodd Jason bod ffi'r Awdurdod wedi dod i ychydig yn is na'r canrannau hyn gyda'r ffi archwilio ariannol wedi cynyddu £3,700 (cynnydd o 14.6%) a'r elfen archwilio perfformiad wedi codi £350 (cynnydd o 2%).



Daethpwyd i'r casgliad bod y ffi ar gyfer yr Awdurdod wedi cynyddu ychydig dros £4,000 (cynnydd cyffredinol o 9%).

Gofynnodd un Aelod a fyddai'r ffi yn gostwng y flwyddyn nesaf neu'n aros yr un fath. Eglurodd Jason bod y cynnydd o 4.8% yn agored i newid gan fod hwn yn chwyddiant, ond byddai'r cynnydd o 10.2% yn parhau yr un fath gan fod hwn yn gynnydd oherwydd y gwaith ychwanegol a achosir gan ofynion ISA 315.

Trosglwyddwyd y cyflwyniad wedyn i Matt Brushett fu'n ymdrin ag elfennau archwilio perfformiad yr adroddiad. Cadarnhaodd Matt bod Archwilio Cymru wrthi'n cwblhau'r Adolygiad Cenedlaethol o lywodraethu o fewn yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a chadarnhaodd y byddai'r adroddiad ar gael yn yr Hydref.

Gan mai adroddiad cenedlaethol oedd hwn, gofynnodd y Prif Weithredwr a ellid rhoi adborth, yn benodol i'r Awdurdod, ar yr hyn y gellid ei wella o ran llywodraethu. Cadarnhaodd Matt y byddai Archwilio Cymru yn hapus i rannu'r wybodaeth hon.

Trafododd Matt y gwaith thematig arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod sef 'Sicrhau Mynediad i'r Parciau Cenedlaethol gan grwpiau a dangynrychiolir' a chadarnhaodd, er bod y fethodoleg yn cael ei chwblhau, y byddent yn anelu at edrych ar y data sydd ar gael a chyfweld Swyddogion a defnyddwyr y gwasanaethau fel rhan o'r gwaith hwn. Eglurodd Matt y byddai'r gwaith maes yn debygol o ddigwydd o fis Medi ymlaen ac y byddai'r adroddiad ar gael tua Mai/ Mehefin 2024.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, cadarnhawyd bod y risgiau oedd wedi'u cynnwys yn y cynllun archwilio yn risgiau cyffredin i lywodraeth leol. Eglurodd Jason bod y risg Diystyru Rheolaeth wedi'i gynnwys ym mhob cynllun archwilio ar draws pob sector, roedd y risg sy'n ymwneud â Phensiynau wedi'i gynnwys gan fod prisiad tair blynedd i'w gyhoeddi eleni, ac roedd y risg terfynol yn ymwneud â thir ac adeiladau wedi'i gynnwys gan fod cyfalaf yn aml yn golygu mwy o risg.

## **Nodwyd.**

### **8. Adroddiad Archwilio Mewnol 2022/23**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Helen Cargill o TIAA, Archwilwyr Mewnol presennol yr Awdurdod, a gyflwynodd yr adroddiadau oedd yn weddill oedd yn ymwneud ag adolygiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) o'r gwaith Adfer ar ôl Trychineb ac Adroddiad Blynyddol terfynol 2022/23.



Dywedwyd bod Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh wedi cael sicrwydd cyfyngedig, ac adroddwyd ar y canfyddiadau strategol allweddol oedd yn cynnwys bod angen diweddarau'r Cynllun Parhad Busnes a'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb, a'u gwneud ar gael a'u profi, ynghyd â hyfforddiant i'r staff i sicrhau bod Swyddogion yn deall eu cyfrifoldebau fel rhan o'r cynlluniau hyn. Nodwyd bod y rheolwyr wedi derbyn pob un o'r argymhellion.

Trafodwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol wedyn, ac roedd Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau bod TIAA yn fodlon bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli risg, mesurau rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol yn eu lle. Nodwyd mai sicrwydd cyfyngedig oedd gan yr Adroddiad ar Adfer ar ôl Trychineb, fodd bynnag roedd TIAA yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi derbyn yr argymhellion a bod cynllun gweithredu yn ei le. Roedd y Rheolwr Cyllid wedi amlygu'r ffaith bod y Farn Archwilio yn cael ei hailadrodd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ailadrodd yr angen am fomentwm o ran gweithredu'r argymhellion arfaethedig, a dywedodd y byddai log gweithredu ar archwilio yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ac y byddai TIAA yn cyflwyno rhestr o'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau i sicrhau bod pob elfen yn cael eu cwblhau.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd y byddai'r Pennaeth Datgarboneiddio yn cael digon o gefnogaeth gan mai rôl newydd oedd hon, a'r pennaeth hwn fyddai'n gyfrifol am nifer o'r camau gweithredu a glustnodwyd. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod yr angen am fwy o gydnerthedd o fewn y tîm TG, ond dywedodd bod newidiadau yn digwydd ar hyn o bryd ymhlith staff y tîm, ac y gellid ceisio cymorth allanol i gynorthwyo'r sefydliad yn y maes hwn.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r ffaith bod cadw copïau TG wrth gefn yn faes risg posibl, a lleisiodd un Aelod ei bryder ynghylch y posibilrwydd o ddinistrio copïau wrth gefn yn ffisegol a gofynnodd a ellid cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Awgrymwyd bod Swyddog TG yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol i ateb cwestiynau'r Aelodau ar y pwnc hwn, ac i roi diweddariad ar Microsoft 365.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA ac i Helen Cargill am eu gwaith caled dros y blynyddoedd ac am eu proffesiynoldeb, a gofynnodd i'r sylwadau hyn gael eu trosglwyddo i'r cydweithwyr eraill. Ymatebodd Helen drwy ddiolch i'r Awdurdod ac ychwanegodd eu bod wedi mwynhau gweithio gyda'r Awdurdod.

## **Nodwyd.**



## 9. **Strategaeth Ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol 2023/24-2025/26**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Nigel Ireland (Prif Weithredwr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol) ac i Ceri Kwiecinski (Rheolwr Archwilio Mewnol) o Astari, Archwilwyr Mewnol newydd yr Awdurdod, a gyflwynodd y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol.

Rhoddodd Nigel gyflwyniad byr am y cwmni ac aeth ymlaen i gyflwyno'r strategaeth ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol. Eglurodd bod y ddogfen wedi'i chreu yn dilyn ymweliadau â'r Awdurdod i ddeall y diwylliant, yr heriau, a'r dogfennau allweddol megis y strategaeth gorfforaethol. Diolchodd Nigel i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid a'r Cadeirydd am eu cymorth a'u mewnbwn i'r ddogfen hon, ac aeth rhagddo i arwain yr Aelodau drwy'r adroddiad a rhoi crynodeb byr o bob adran. Pwysleisiodd Nigel y byddai'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, gydag unrhyw ddiweddariadau yn dod i'r Aelodau i'w cymeradwyo. Ychwanegodd Nigel bod canlyniadau archwiliadau blaenorol yn rhan annatod o'r strategaeth hon i sicrhau bod pob un o'r argymhellion yn cael eu cwblhau.

Dyweddodd un Aelod mai'r amserlen i adolygu'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth oedd 2024/25, a gofynnodd a ellid edrych ar y ddau argyfwng hyn yn gynt na hynny. Eglurodd Nigel bod yr amserlen fel ag y mae yn rhoi digon o amser i'r Awdurdod baratoi, a gweithredu'r camau arfaethedig, fyddai wedyn yn caniatáu i Astari adolygu a rhoi sicrwydd. Gyda'r eglurhad hwn, roedd yr Aelodau yn hapus â'r amserlen arfaethedig.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, cadarnhawyd y byddai adolygiad thematig o bob canolfan yn cael ei gynnal yn 2024/25 gydag adolygiad cynharach o'r modd y mae'r canolfannau hyn yn gweithredu yn digwydd fel rhan o'r Archwiliad Rheoli Ystadau yn 2023/24. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr amserlen wedi'i hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau y gellid rhoi sicrwydd i'w gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Gan mai drafft oedd y Strategaeth ar gyfer Archwilio Mewnol, gofynnwyd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau am feysydd eraill y dylid eu hadolygu neu a oedd heb eu cynnwys yn y rhestr waith. Awgrymodd un Aelod y dylid adolygu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan fod newidiadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r modd y mae'n cael ei gweinyddu. Gwnaeth Nigel nodyn o'r awgrym hwn. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal adolygiad mwy trylwyr o'r flwyddyn gyntaf i ganiatáu adborth o'r naill ochr a'r llall unwaith y byddai Astari yn gwbl gyfarwydd â'r Awdurdod.



Roedd y Cadeirydd yn falch o weld y gofrestr risg yn cael ei defnyddio fel sail i'r rhaglen waith, ond gan fod y papur hwn yn canolbwyntio ar archwiliadau perfformiad yn hytrach nag archwiliadau ariannol, gofynnodd a fyddai Astarti yn gallu rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ar yr elfennau o'r Cyfrifon Ariannol ar gyfer yr adroddiad blynyddol nesaf ar y sefyllfa ariannol. Cadarnhaodd Nigel bod nifer o'r archwiliadau yn yr arfaeth yn cynnwys elfen o gyllid, ac y byddai'r archwiliad o'r rheolaethau ariannol allweddol fis Chwefror 2024 yn edrych ar gyllid yn fanylach. Ychwanegwyd pe bai'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o ffocws ar gyllid, byddai Astarti yn gallu cynyddu'r dyraniad hwn ond byddai hynny naill ai'n effeithio ar waith arall neu byddai angen diwrnodau ychwanegol.

Gyda'r drafft o'r Strategaeth Archwilio Mewnol i'w gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo, gofynnwyd bod yr atebion a roddwyd i'r Aelodau ynghylch yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, a'r adolygiadau o ganolfannau ymwelwyr, yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad er mwyn rhoi sicrwydd ac osgoi sylwadau ychwanegol gan Aelodau eraill.

## **Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:20am a 11:30am.]

- 10. Syndrom Dirgryniad Llaw Braich (HAVS) – Adroddiad Diweddar**  
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i James Parkin, y Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth, a gyflwynodd adroddiad oedd yn ddiweddariad ar y gwaith a wnaed gan yr Awdurdod ers derbyn Hysbysiad Gwella gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fis Rhagfyr 2022 i wella'r modd y rheolir HAVS. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad oedd yn canolbwyntio'n benodol ar waith y Tîm Rheoli Cefn Gwlad ac yn cynnwys gwybodaeth am Hysbysiad Gwella yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cynllun Gweithredu ar y Syndrom Dirgryniad Llaw Braich, y meysydd o gynnydd sylweddol, a'r effaith ar Reoli Hawliau Tramwy.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd, cadarnhawyd bod statws hysbysiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i gau ac er nad oedd unrhyw weithgarwch dilynol wedi'i drefnu, roedd y swyddogion yn ymwybodol, gan fod yr Awdurdod Gweithredol yn cynnal ymweliadau ar hap, y gallai adolygiad o'r math hwn ddigwydd eto yn y dyfodol. Ychwanegwyd, er gwaethaf hyn, bod yr Awdurdod yn hyderus bod y camau a gymerwyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn, a chanmolodd y Cadeirydd y Swyddogion am ymateb yn briodol.

Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd ynghylch y modd yr oedd y newidiadau hyn wedi'u gwreiddio yn niwylliant y gweithle. Cadarnhawyd,



o ganlyniad i'r mesurau ymgysylltu fel tîm a bod yn dryloyw a chynnal cyfarfodydd tîm, bod pob aelod o staff wedi mynd ati i roi'r cynllun gweithredu ar waith gyda phenderfyniad i ddsygu a gwella. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, mewn ymateb i'r hysbysiad hwn, bod rôl newydd wedi'i chreu o fewn yr Awdurdod oedd yn canolbwyntio'n benodol ar lechyd a Diogelwch i gefnogi'r sefydliad i sicrhau bod systemau gwell yn eu lle.

Dyweddodd y Cadeirydd bod y Cynllun wedi'i gymeradwyo'n wreiddiol gan yr Awdurdod fis Gorffennaf 2022 ond bod y Polisi HAVS wedi'i ddiweddarau wedi'i gytuno gan y Tîm Rheoli, a gofynnodd a oedd angen i'r polisi hwn gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr gan mai dim ond mân newidiadau oedd wedi'u gwneud, bod y Tîm Rheoli yn gallu cymeradwyo'r newidiadau hyn. Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r prif newid i'r polisi HAVS oedd gostwng y terfyn uchaf o ddirgryniad dyddiol o 400 i 150 pwynt.

Wedyn estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Bennaeth Adfer Natur yr Awdurdod a'r Rheolwyr Cefn Gwlad a roddodd gyflwyniad oedd yn cynnwys manylion pellach yn ymwneud â'r polisi HAVS, Asesiad Risg HAVS, Asesiadau HAVS Sylfaenol, Canlyniadau Arolygon Offer, Offer Newydd, a'r mesurau monitro a chydymffurfio.

Canmolodd un Aelod y Swyddogion am ymdrin â'r mater hwn mewn modd rhagorol gyda newidiadau mewn ymagwedd a diwylliant, a gofynnodd a oedd hyn wedi'i rannu â phartneriaid allai elwa o'r wybodaeth hon. Cadarnhawyd bod y wybodaeth hon wedi'i chynnig i fforymau amrywiol i rannu syniadau ac arfer gorau, ac roedd apwyntiad wedi'i drefnu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru oedd â system debyg. Adroddwyd y byddai asesiad yn digwydd yn ystod canol y tymor gyda'r holl setiau data i'w casglu erbyn diwedd y tymor.

Gofynnodd Aelod arall a oedd yr offer newydd yn cael ei brynu gan ddosbarthwyr lleol, ac o ran yr hen offer, a oedd hwn yn cael ei werthu ymlaen i achosion da lleol. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod y tendr ar gyfer offer newydd wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol ar ôl i'r tendr gael ei hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses gaffael. O ran gwaredu hen offer, nid oedd y broses hon wedi'i phenderfynu eto. Cadarnhawyd pe bai'r offer yn cael ei werthu, byddai lefel y dirgryniad yn cael ei gyfleu i'r prynwyr, fodd bynnag, dim ond i'r rhai sy'n defnyddio'r offer yn llawn amser bob dydd y byddai hyn yn berthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith caled ac am drefnu cynllun gweithredu cynhwysfawr oedd wedi rhoi sicrwydd i'r Aelodau. Gofynnwyd a ellid cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y tymor ar effeithiau HAVS ar y Tîm Rheoli Cefn Gwlad ac ar eu gwaith. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y



byddai'r data hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Tachwedd. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Swyddogion a'r cyn Swyddogion oedd wedi gweithio'n galed ac wedi chwarae rhan mewn ymdrin â hysbysiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Nodwyd.**

#### **11. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diwedd 31 Mai 2023**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau am 2022/23. Wrth i'r Awdurdod fynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd yn hyn hyd at 31 Mai ac yn cynnwys ystadegau Ch1 – Ch2 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol, ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn categori coch neu ambr neu lle bu cynnydd cadarnhaol ers yr adroddiad blaenorol. Amlygwyd bod sawl cam gweithredu yn y categori Ambr, a hynny yn rhannol oherwydd nad yw'r Swyddogion wedi cychwyn eto yn eu swyddi.

Holodd y Cadeirydd a fyddai monitro'r Cynlluniau Cyflawni yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai'r strwythur adrodd presennol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ch1 a Ch2 eleni gyda'r nod o ddatblygu fframwaith newydd i'r adroddiad perfformiad ar gyfer Ch3 a Ch4.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad pellach ynghylch yr eitem Dawnsio ar y Dibyn oedd yn y categori coch. Dywedwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod contractwr y prosiect wedi cyflwyno data yn hwyr, a rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod Swyddogion wedi ymgysylltu dro ar ôl tro â'r contractwyr i sicrhau bod data yn cael ei gyflwyno'n brydlon. Cadarnhawyd bod y data gofynnol bellach wedi dod i law a bod y data yn cael ei brosesu.

**Nodwyd.**

#### **12. Adroddiad Chwarterol Iechyd, Diogelwch a Lles**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Arfon Fry, Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch, a gyflwynodd adroddiad oedd yn cynnwys gwybodaeth am Ddigwyddiadau a Damweiniau, Monitro Diogelwch Rheolaidd, Cymorth Cyntaf, Aseidiadau Risg Tân, HAVS, y Grŵp Iechyd a Diogelwch, Archwiliadau Iechyd a Diogelwch, Polisiâu Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant, Diogelu, Absenoldeb Salwch Staff, Adroddiad Blyneddol Iechyd a Diogelwch, Arolwg o Ddiwylliant Iechyd a Diogelwch, a'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr.





Dywedwyd y byddai adolygiad o'r ddarpariaeth Cymorth Cyntaf yn cychwyn fis Gorffennaf. Gofynnodd un Aelod am eglurhad y byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cyntaf lechyd Meddwl ac y byddai'n sicrhau y byddai digon o ddarpariaeth ym mhob safle, gan ystyried patrymau gwaith oriau hyblyg y staff. Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect lechyd a Diogelwch y byddai Triniaeth Cymorth Cyntaf a Hyrwyddwyr lechyd Meddwl yn rhan o'r adolygiad.

O ran HAVS, awgrymodd y Cadeirydd y dylid yn y dyfodol roi gwybod i'r Aelodau am achosion o staff yn dod i gysylltiad â lefelau uwch o ddirgryniad na'r Rhif Terfyn er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Nodwyd hyn gan y Rheolwr Prosiect lechyd a Diogelwch.

Fel rhan o'r adroddiad, rhoddwyd sylw i'r data ar absenoldeb salwch staff gyda dadansoddiad o nifer y dyddiau a gollwyd. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r canran o absenoldeb salwch staff gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol i alluogi meincnodi; gofynnodd hefyd am i unrhyw adolygiad o absenoldeb salwch a ddarperir i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol gael ei gyflwyno yn ogystal i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol. Nodwyd hyn gan y Rheolwr Prosiect lechyd a Diogelwch.

## **Nodwyd.**

### **13. Cofrestr Risg**

Dywedwyd bod y Gofrestr Risg wedi ei hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth, ac amlygwyd y prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol.

Cyfeiriodd un Aelod at y risg o effaith hirdymor newid yn yr hinsawdd, a lleisiodd ei bryder ynghylch erydu arfordirol, a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud yn Sir Benfro i fynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Rheoli Traethlin, oedd yn ystyried Erydu Arfordirol, yn dod o fewn awdurdodaeth Cyngor Sir Penfro. Ychwanegwyd mai un o rolau allweddol yr Awdurdod fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd ymaddasu i newid hinsawdd sy'n cyfeirio at y modd y mae'r Awdurdod yn ymdrin â'r cymunedau a'r seilwaith y gellid ei gollu o ganlyniad i erydu arfordirol. Eglurodd y Prif Weithredwr bod asesiad o Lwybr yr Arfordir wedi'i gomisiynu i ddeall pa ardaloedd oedd fwyaf agored i erydiad arfordirol. Y gobaith oedd y byddai'r asesiad hwn yn rhoi mwy o ddata yn y dyfodol i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r pwyntiau hyn gael eu hychwanegu at yr adran lliniaru yn erbyn risg 5. Nododd y Prif Weithredwr hyn ac awgrymodd mai cam gweithredu posibl ar gyfer y dyfodol fyddai cwblhau cofrestr is-risg ar gyfer risgiau megis newid yn yr hinsawdd sydd â chwmpas eang, er



mwyn mynd i'r afael â risgiau unigol yn fwy manwl. Cytunodd yr Aelodau â'r cam hwn.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at eitem 8 (Risg o Ddigwyddiad Mawr yn effeithio ar y Parc Cenedlaethol) ac eitem 15 (Risg o ddigwyddiad mawr yn effeithio ar yr Awdurdod) ar y Gofrestr Risg a gofynnodd i'r Rheolwr Cyllid egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddwy eitem hyn. Cadarnhawyd bod eitem 8 yn cyfeirio at y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd a'r dylanwadau allanol sydd allan o reolaeth yr Awdurdod, a bod eitem 15 yn cyfeirio at waith yr Awdurdod, y gweithlu, yr isadeiledd ac elfennau eraill o fewn y sefydliad sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

## **Nodwyd.**

### **14. Datganiad Cyfrifon Drafft**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid gopi drafft o'r Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn 2022/23 a chadarnhaodd y byddai'r drafft hwn yn rhan o'r archwiliad fis Medi gyda set o gyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod fis Tachwedd.

Dywedwyd bod cyllid refeniw cyffredinol yr Awdurdod wedi cynyddu 0.8% yn 2022/23, ac am bob £1 a ddarparwyd gan Grant ac Ardoll y Parc Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn, bod yr Awdurdod wedi cynhyrchu 98c pellach o ffynonellau eraill. Ychwanegwyd bod Grant y Parc Cenedlaethol wedi cynyddu gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol nad oedd yn destun yr ardoll.

Roedd y cyfrifon yn rhoi dadansoddiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn. Dywedwyd bod yr Incwm o'r Meysydd Parcio wedi gostwng 15%, a nodwyd bod y duedd hon yn werth cadw mewn cof wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfleusterau parcio ceir yn y dyfodol. Dywedwyd bod hysbysebu yn Coast to Coast wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chytunwyd y gellid priodoli hyn i'r ffaith bod y cyhoeddiad bellach ar gael ar-lein. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod y maes a nodir 'Arall' wedi cynyddu 43% gan fod yr Awdurdod wedi derbyn cymynrodd o £50,000, a bod yr Incwm Buddsoddi wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r ffaith bod y cyfraddau llog wedi codi.

Roedd y cyfrifon yn rhoi dadansoddiad o'r hyn yr oedd yr Awdurdod wedi gwario arian arno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd bod costau gweithwyr wedi codi o 4.3 miliwn yn 2021/22 i bron i 4.7 miliwn yn 2022/23 o ganlyniad i ddyfarniad cyflog sylweddol o £1,995 yr un, a bod nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn hefyd wedi cynyddu o 133 i 136. Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod y costau ar Adeiladau wedi gostwng yn 2022/23 oherwydd y gwariant mawr ar Gastell Caeriw yn 2021/22, a



bod costau Cludiant wedi gostwng 2% sydd i'w briodoli yn ôl pob tebyg i'r cerbydau trydan newydd sydd ar gael i'r staff. Ychwanegwyd bod y costau ar y Gwasanaethau, Cyflenwadau a Grantiau wedi cynyddu 27% o gymharu â 2021/22 am sawl rheswm gan gynnwys y cynnydd yn y grantiau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod a bod yr Awdurdod wedi cael gwerth £160,000 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar dir preifat na ellid felly ei gyfalafu.

Aeth y Rheolwr Cyllid rhagddo i sôn am y gyllideb Refeniw oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r modd yr oedd yr Awdurdod yn cofnodi ei wariant fesul maes gwasanaeth, a rhoddodd grynodedb byr o unrhyw amrywiadau mawr yn y ffigurau. Rhoddwyd dadansoddiad o'r Incwm yn 2022/23 yn erbyn y gyllideb a'r blynnyddoedd blaenorol, ac mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhawyd mai'r 4 maes parcio oedd wedi dechrau codi tâl yn 2022/23 oedd meysydd parcio Amroth, Gorllewin Angle, Nolton a Phenalun, gydag Amroth a Gorllewin Angle wedi perfformio'n arbennig o dda. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o orfod codi tâl mewn safleoedd ychwanegol yn y dyfodol gan fod Archwilio Cymru wedi awgrymu bod yr Awdurdod yn edrych ar gyfleoedd eraill o greu incwm.

Amlygodd y Rheolwr Cyllid i'r Aelodau mai cyfanswm cost net y gwasanaethau oedd £6.2 miliwn yn 2022/23 o'i gymharu â £5.5 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Cadarnhawyd bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod Rheoli Hamdden a'r Parc oedd â gwarged o £267,000 yn 2021/22 ond bellach â diffyg o £117,000 yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Ychwanegwyd bod hyn hefyd i'w briodoli i'r rhagamcan mewn incwm meysydd parcio oedd yn ostyngiad o £130,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn ogystal costau nad ydynt yn arian parod megis dibrisiant.

Yn olaf, tynnodd y Rheolwr Cyllid sylw'r Aelodau at y ffigurau Asedau Pensiwn a Rhwymedigaethau Pensiwn, a rhoddodd eglurhad ar y modd yr oedd y ffigurau hyn wedi'u cyfrif. Dywedwyd bod symudiad sylweddol yn y ffigurau o ddiffyg o £7 miliwn i ased o £4 miliwn, a dywedodd un Aelod bod hyn yn egluro'r rhesymeg y tu ôl i ffocws Archwilio Cymru ar Bensiynau fel risg bosibl i'r Awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled yn cynhyrchu'r set hon o gyfrifon. Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at y llythyr gan Lywodraeth Cymru oedd wedi'i gynnwys ar ddiwedd y papurau oedd yn cadarnhau eu bod wedi derbyn dyddiadau'r archwiliad sydd yn yr arfaeth, ond serch hynny wedi gofyn i bob corff sector cyhoeddus barhau i baratoi cyfrifon yn ôl yr amserlen arferol a ddisgwylir, i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn diwygio'r rheoliadau ar gyfer y blynnyddoedd i ddod i gyfrif am yr oedi yn y rhaglen archwilio.



**Nodwyd.**

**15. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

**Nodwyd.**

